Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG

## 10.00 AM DYDD GWENER, 17 RHAGFYR 2021

## O BELL TRWY TEAMS

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**Rhan 1**

1. Croeso a galw'r rhestr

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd

3. Datganiadau o fuddiannau

4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol *(Tudalennau 3 - 18)*

5. Craffu Cyn Penderfynu
Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu

6. Blaenraglen Waith *(Tudalennau 19 - 22)*

7. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot**

**Dydd Gwener, 10 Rhagfyr 2021**

**<u>Aelodaeth y Pwyllgor:</u>**

**Cadeirydd:** **S.M.Penry**

**Is-gadeirydd:** **R.W.Wood**

**Cynghorwyr:** A.R.Aubrey, C.Galsworthy, D.Keogh, A.McGrath, W.F.Griffiths, R.Davies, J.Hale, S.A.Knoyle, S.Jones a/ac S.Lynch

**<u>Nodiadau:</u>**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

**PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG**

**(O BELL TRWY TEAMS)**

**<u>Aelodau sy'n Bresennol:</u>** **<u>Dydd Gwener, 24 Medi 2021</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.M.Penry** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Cynghorwyr**: | A.R.Aubrey, C.Galsworthy, D.Keogh, W.F.Griffiths, R.Davies, J.Hale a/ac S.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, M.Roberts, N.Headon, C.Plowman, H.Hasan, P. Jackson a/ac Ms.J.Smith |
| **Gwahoddedigion:** | Cynghorwyr M.Harvey, R.G.Jones a/ac P.A.Rees |
| **Arsylwyr:** | |

1. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2021.

2. **<u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

<u>Cynnig Llywodraeth Cymru i roi Terfyn Cyflymder Diofyn o 20mya ar waith ar draws Cymru</u>

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y sefyllfa bresennol o ran terfyn cyflymder diofyn 20mya arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru.
Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch effeithiau ariannol y cynllun hwn; gofynnwyd a fydd Swyddogion yn lobïo am fwy o arian ar gyfer clustogau cyflymder a chyfyngiadau ffisegol a fydd yn arafu modurwyr, gan y cydnabuwyd nad oedd digon o adnoddau o fewn yr Heddlu i orfodi hyn ar draws y fwrdeistref sirol gyfan.

Esboniodd swyddogion mai'r bwriad o'r gorchymyn cyffredinol oedd nad oedd mesurau peirianyddol caled wedi'u cynllunio fel rhan o'r terfyn 20mya diofyn ehangach; ac y byddai angen symud i ffwrdd o'r nifer helaeth o glustogau cyflymder fel rhan o'r cynllun hwn, oherwydd y costau y byddai Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu ledled Cymru gyfan. Ychwanegwyd y gallai fod arian ar gael ar gyfer nodweddion mynediad i gymunedau, gan rybuddio pobl eu bod yn mynd i ardal adeiledig o lwybr strategol.

Hysbyswyd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn cynnal cynlluniau peilot ar draws wyth Awdurdod Lleol; cynhwyswyd Castell-nedd Port Talbot yn y cynllun peilot hwn, gan gyfeirio'n benodol at gymuned Cil-ffriw.

Cadarnhawyd bod Swyddogion wedi bod yn codi mater cyllid gyda Llywodraeth Cymru, ac roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi nifer o feysydd a oedd yn cael eu trafod gan gynnwys cynnal adolygiad o'u mapiau.

Nododd y Pwyllgor y byddai costau sylweddol o ran nifer yr arwyddion y gallai fod eu hangen, ac unrhyw newidiadau i'r gorchmynion deddfwriaethol. Byddai enghraifft o newid mewn gorchmynion deddfwriaethol yn cynnwys pe bai'r cyngor yn penderfynu y byddai'n well cadw rhai o'r prif ffyrdd neu lwybrau strategol, lle mae gwasanaethau bysiau'n rhedeg, ar 30mya; byddai'n rhaid i'r cyngor hysbysebu i ofyn i'r ffordd ddod yn 30mya, fel yn y cynigion gan Lywodraeth Cymru, bydd yr holl ffyrdd yn cael eu lleihau i 20mya.

Nododd yr adroddiad a ddosbarthwyd nad oedd yr effeithiau ariannol yn hysbys ar hyn o bryd, a chadarnhawyd bod hyn oherwydd bod hyn yn ddarn mor helaeth o waith; Roedd swyddogion yn lobïo Llywodraeth Cymru, ac yn cael sicrwydd y bydd cyllid ar gael. Soniwyd y byddai gwaith sylweddol o ran cefnogi'r ffyrdd y teimlwyd y dylid eu cynnal ar 30mya.

Esboniodd swyddogion fod cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Dirprwy Weinidog, Arweinwyr Cynghorau ledled Cymru ac Aelodau perthnasol y Cabinet; yn y cyfarfod hwn, codir yr holl bryderon, yn enwedig goblygiadau ariannol y cynllun hwn.

Nodwyd bod seminar ar gyfer yr holl Aelodau wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun 27 Medi 2021 i friffio'r Aelodau ar gynnig Llywodraeth

Cymru i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar waith ar draws Cymru Roedd swyddogion hefyd yn mynd i roi drafft o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a baratowyd o safbwynt yr Awdurdod i'r Aelodau; Gofynnwyd i'r Aelodau adolygu'r ddogfen hon cyn y seminar. Ychwanegwyd nad oedd llawer o'r cwestiynau a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad yn gallu cael eu hateb fel Awdurdod gan eu bod wedi'u cyfeirio at unigolion; Byddai swyddogion yn gofyn i'r Aelodau ymateb i'r cwestiynau penodol hyn yn seiliedig ar y strydoedd yn eu wardiau.

Yn dilyn y seminar ar gyfer yr holl Aelodau, dywedwyd y byddai Swyddogion yn ystyried yr holl adborth ac yn ei gynnwys yn yr ymgynghoriad; cynigir wedyn y dylid rhoi awdurdod i'r Aelod Cabinet dros Strydlun, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio a'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth gyflwyno'r ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn craffu, nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

<u>Troedffordd/cyswllt llwybr beicio ag Eglwys Nynnid a Pharc Dewi Sant, Margam</u>

Darparodd swyddogion adroddiad ar y cynnig ar gyfer buddsoddi cyfalaf wrth ddarparu troedffordd/llwybr beicio ar Stryd y Dŵr i gysylltu Eglwys Nynnid a Pharc Dewi Sant â'r A48 ym Margam.

Holodd yr Aelodau sawl gwaith y gwnaed cais am y cynllun hwn, a pham yr oedd y cyngor yn dal i wneud cais amdano er nad oedd yn llwyddiannus i sicrhau cyllid grant allanol Llywodraeth Cymru.

Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod nifer o geisiadau am Lwybrau Diogel mewn Cymunedau wedi'u gwneud ar gyfer y prosiect hwn; yn y gorffennol, roedd grantiau wedi'u cymeradwyo ar gyfer gwaith ar y priffyrdd yn yr ardal, ond nid oedd y gwaith hwn yn benodol i'r llwybr troed. Penderfynwyd bod angen Llwybr Diogel mewn Cymunedau ar gyfer preswylwyr yr ardal hon am nifer o resymau.

Esboniwyd bod gan y cyngor hanes hir o ddatblygu Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar draws y fwrdeistref sirol, ac ar ôl ceisio sicrhau'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ar sawl achlysur, ni allai'r cyngor wneud hynny y tro hwn; felly, gofynnwyd i'r cyngor gyfrannu at ariannu'r cynllun oherwydd elfennau o bryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd yn yr ardaloedd.

Esboniwyd y pryderon ynghylch diogelwch y safle penodol hwn i'r Aelodau. Nodwyd bod y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cynnwys aneddiadau noswylo ar draws y fwrdeistref sirol, ac nid oedd rhai ohonynt yn cael eu gwasanaethu gan lwybrau troed; roedd y cysylltiad ag Eglwys Nynnid a Pharc Tyddewi, Margam yn un o'r ardaloedd hynny. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith nad oedd gan yr ystadau a oedd yn cael eu trafod unrhyw fynediad diogel allan ar droed.

At hynny, hysbyswyd yr Aelodau y bu rhai newidiadau o ran symudiadau traffig Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV), a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Dywedwyd bod yr Arweinyddiaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT) sawl blwyddyn yn ôl, yn dilyn problemau gyda HGVau yn gyrru drwy'r pentrefi bach yn y Pîl. Nodwyd bod prosiect mawr wedi'i gynnal i newid y brifffordd i ganiatáu mynediad HGV i'r ystâd ddiwydiannol a oedd ar gael drwy Stryd y Dŵr ym Margam; arweiniodd hyn at fwy o draffig HGV yn defnyddio'r llwybr hwn i gael mynediad i'r ystâd ddiwydiannol.

Yn dilyn ymholiad ynglŷn â diffyg yn nifer y plant ysgol a fyddai'n defnyddio'r llwybr troed arfaethedig, esboniwyd bod y Rhaglen Llwybrau Diogel i'r Ysgol, ar adeg y cais cyntaf i Lywodraeth Cymru, yn ffactor a gyfrannodd at dderbyn cyllid ar gyfer y mathau hyn o brosiectau; oherwydd y nifer isel o blant a fyddai wedi defnyddio'r llwybr hwn i gerdded i'r ysgol, nid oedd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r cyllid. Fodd bynnag, ers hynny roedd y Rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau wedi'i sefydlu sy'n ystyried yr holl ddefnyddwyr a phreswylwyr mewn gwahanol ardaloedd. Er bod gan blant yr ardal gludiant i'r ysgol, soniwyd nad oedd llwybr allan o'r ardal hon i breswylwyr ar droed ac roedd hynny'n bryder.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â chost y cynllun, ac roedd yn seiliedig ar y ffaith y byddai'n costio tua £550,000. Darparodd swyddogion wybodaeth am y gwahanol gynhyrchion a deunyddiau y byddai eu hangen, a thynnwyd sylw at y ffaith bod rhai cynhyrchion yn gyfnewidiol iawn ar hyn o bryd. Hysbyswyd yr Aelodau fod Swyddogion yn obeithiol o gyflawni'r prosiect hwn o fewn ei gyllideb; roedd y ffigurau wedi'u seilio ar restr o gyfraddau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Strydoedd y cyngor, a adolygwyd gan ymgynghorydd allanol. Dywedwyd, hyd nes y caiff gwaith ei gontractio, fod potensial bob amser y bydd amrywiannau; fodd

bynnag, roedd hyn yn wir am bob prosiect y mae'r cyngor yn ei ystyried.

Gofynnwyd a oedd cynlluniau i drafod gosod llwybr troed/beicio o'r ystâd tuag at ardal y Pîl, a oedd wedi'i lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr; byddai'r llwybr hwn i gyfeiriad arall y llwybr a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Nodwyd bod y cyngor wrthi'n adolygu'r Llwybrau Teithio Llesol, ac roedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y mater hwn ar hyn o bryd; pe bai llwybr troed/llwybr beicio yn cael ei osod tuag at ardal y Pîl, yna byddai angen ystyried cynigion ar y cyd â chydweithwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr oherwydd y cysylltiad rhwng cymunedau. Hysbyswyd yr Aelodau fod cynlluniau i uno cymunedau ar draws y Sir yn hynny o beth, ond roedd hyn yn dibynnu ar gynlluniau Teithio Llesol yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at baragraff chwech o'r llythyr a dderbyniwyd gan breswylwyr Eglwys Nynnid a Pharc Tyddewi, a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd; gofynnwyd i swyddogion ymhelaethu ar hyn.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod grŵp o Swyddogion o fewn yr Awdurdod Lleol a oedd yn rhan o Grŵp Llywio'r Rhaglen Gyfalaf; mae'r Grŵp hwn yn ystyried materion sy'n ymwneud â phrosiectau cyfalaf a chyllid cysylltiedig gan gynnwys digwyddiadau annisgwyl ar draws y fwrdeistref sirol fel llifogydd neu dirlithriadau. Dywedwyd bod y Grŵp hwn wedi bod ar waith ers cryn amser a chyn yr adolygiad diweddar a oedd yn cynnig newidiadau i'r gweithdrefnau o ran sut yr awdurdodwyd cynlluniau, cymeradwywyd y cynllun dan sylw. O ganlyniad, gofynnwyd i Swyddogion gyflwyno'r adroddiad hwn i Fwrdd y Cabinet Strydlun a Pheirianneg i rannu'r wybodaeth a sicrhau bod yr Aelodau'n cael gweld y cynnig i'w ystyried. Esboniwyd bod y preswylwyr wedi cael gwybod am y cynllun gan y tybiwyd, yn anghywir, fod y prosiect wedi'i ymgorffori yn y rhaglen waith drwy gymeradwyaeth Grŵp Llywio'r Rhaglen Gyfalaf.

Nodwyd yn y cyfarfod fod y prosiect wedi'i godi i'w ystyried yng nghyfarfodydd blynyddol Cymorthfeydd yr Aelodau ynghylch rhaglen waith Priffyrdd a Pheirianneg. O ystyried maint y prosiect, holodd yr Aelodau am ddadansoddiad o wariant y rhaglen ar draws y wardiau. Er bod y gwariant yn gyfyngedig, dywedodd swyddogion fod potensial i gynlluniau ddechrau fel prosiectau dichonoldeb bach o dan y rhaglen, ond ni ellid ariannu prosiect o'r raddfa hon o'r rhaglen; dyma'r rheswm pam yr aeth i Grŵp Llywio'r Rhaglen Gyfalaf i ystyried buddsoddiad o'r Rhaglen Gyfalaf. Soniwyd bod hyn wedi digwydd

mewn sawl ardal yn y gorffennol. Gallai swyddogion ddarparu gwybodaeth yn ôl y gofyn a nodwyd bod gwariant fel y trafodwyd yn y cymorthfeydd yn rhan o ymagwedd rheoli asedau ehangach o dan y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd gan gynnwys gwaith diogelwch hanfodol fel anghenion arwynebu, atgyweiriadau rhwystrau a pheryglon diogelwch eraill a allai ddod i'r amlwg o arolygon asedau.

Nodwyd bod y Pennaeth Gofal Strydoedd, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, wedi anfon nodyn briffio at yr holl Aelodau cyn y Cymorthfeydd Aelodau a oedd yn nodi'r gyllideb sydd ar gael a'r broses. Nododd swyddogion pe bai'r gyllideb sydd ar gael yn gyfartalog ar draws pob ward, mai dim ond tua £40,000 fyddai'r swm, ond roedd y gwariant gwirioneddol yn amrywio yn ôl yr angen. Er enghraifft, gallai fod pontydd yr oedd angen eu hatgyweirio neu asedau draenio yr oedd angen mynd i'r afael â hwy mewn wardiau penodol mewn blwyddyn benodol. Cadarnhaodd swyddogion eto na fyddai cynllun o'r raddfa hon yn dod o dan y Rhaglen Priffyrdd a Pheirianneg ond fel y nodwyd gellid gwneud rhywfaint o waith dichonoldeb. Yn dilyn astudiaeth, byddai'r canlyniad yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol; dros y blynyddoedd, roedd amrywiol Aelodau wedi gofyn am ystod o astudiaethau i gynlluniau posib yn eu wardiau.

Rhoddodd yr Aelod Lleol dros Ward Margam anerchiad i'r Pwyllgor, a mynegodd yr angen am y cyswllt troedffordd/llwybr beicio ag Eglwys Nynnid a Pharc Tyddewi.

Codwyd bod gwall wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd; ar dudalennau 211 a 212, soniodd am *'ostyngiad yn y terfyn cyflymder cenedlaethol ar hyd llwybr yr A48 o 50mya i 40mya'.* Fodd bynnag, cadarnhawyd y dylai nodi *'gostyngiad yn y terfyn cyflymder cenedlaethol ar hyd yr A48 o 60mya i 40mya'.*

Yn dilyn craffu, roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad i fynd i Fwrdd y Cabinet.

<u>Gorchymyn/Gorchmynion Rheoleiddio Traffig: Y Glais i Bontardawe</u>

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Terfyn Cyflymder 40mya ar yr A4067 Y Glais i Bontardawe.

Esboniodd swyddogion fod y rhan fwyaf o'r rhwydwaith hwn yn dod o fewn y cyngor cyfagos, Dinas a Sir Abertawe; ers peth amser roeddent wedi bod yn pryderu am nifer y damweiniau ffordd a oedd

wedi digwydd ar y rhwydwaith priffyrdd yn yr ardal. Dywedwyd bod tystiolaeth bod modurwyr yn goryrru ar y ffordd; roedd cydweithwyr yn Ninas a Sir Abertawe wedi mynegi mai'r unig ffordd y gellid rheoli cyflymder y traffig ar y rhan honno o'r rhwydwaith fyddai drwy leihau'r terfyn cyflymder. Hysbyswyd yr Aelodau fod gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot ran fach o'r rhwydwaith y byddai angen ei newid er mwyn caniatáu gosod camerâu cyflymder cyfartalog ar hyd yr A4067; roedd yn ymddangos bod y camerâu cyflymder cyfartalog yn gweithio'n effeithiol, gan fod tystiolaeth o lawer mwy o gydymffurfiad â chamerâu o'r math hwn.

Trafododd y Pwyllgor leoliad y camerâu cyflymder cyfartalog. Cadarnhawyd y byddant yn cael eu rhoi ar ddwy ochr y rhwydwaith, yng Nghastell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe er mwyn nodi'r cyflymder cyfartalog ar hyd y ffordd.

O ran hysbysebu'r gorchymyn, cadarnhawyd y bydd angen ei hysbysebu yn y wasg, fel mewn papurau newydd lleol, ac ar wefan Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd y bydd angen gosod arwyddion mewn ardaloedd penodol i roi gwybod i fodurwyr am y camerâu cyflymder cyfartalog. Hysbyswyd yr Aelodau fod yn rhaid gwario'r grant a gyflwynwyd gan Ddinas a Sir Abertawe a'r arian erbyn 31 Mawrth 2022; felly, roedd y gwaith paratoi ar y gweill ac roedd angen i'r gorchymyn fynd drwy'r broses gyfreithiol. Soniwyd bod cydweithwyr yn Ninas a Sir Abertawe yn cwblhau ymarfer cyfochrog ar eu rhan hwy o'r rhwydwaith, a'u bod yn cyd-fynd â gwaith Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar y gorchymyn.

Yn dilyn craffu, roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad i fynd i Fwrdd y Cabinet.

## 3. BLAENRAGLEN WAITH

Nododd yr Aelodau Flaenraglen Waith Craffu Strydlun a Pheirianneg 2020/21.

Dywedwyd bod Gweithdy Blaenraglen Waith Craffu Strydlun a Pheirianneg wedi'i drefnu ar gyfer 14 Hydref 2021.

**CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

# PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG

## (O Bell Trwy Teams)

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Gwener, 5 Tachwedd 2021** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Cynghorwyr**: | A.R.Aubrey, C.Galsworthy, D.Keogh, A.McGrath, W.F.Griffiths, R.Davies, J.Hale a/ac S.Lynch |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, M.Roberts, C.Plowman, J.Griffiths, C.Powney, S.Cook a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion:** | Cynghorwyr M.Harvey, A.Wingrave a/ac H.C.Clarke |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Cyhoeddwyd bod Eitem 9 ar Agenda Bwrdd y Cabinet, 'Opsiynau dylunio ar gyfer gwaith adfer Tomen Cilmaengwyn uwchben Ysgol Gynradd Godre'r Graig', wedi ei thynnu'n ôl o gael ei hystyried yn y cyfarfod hwn i alluogi Swyddogion i geisio gwybodaeth atodol bellach. Cadarnhawyd y byddai adroddiad ynghylch y mater hwn yn cael ei gyflwyno i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr Aelod canlynol ddatganiad o fudd:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Harvey - | Parthed. Eitem 8 Agenda Bwrdd y Cabinet - Adroddiad Parcio Blynyddol 2020/2021, oherwydd yn ei rôl yn gweithio i Heddlu De Cymru, mae'n asesu meysydd parcio sy'n cael eu crybwyll yn yr adroddiad fel rhan o'r Cynllun Parcio Mwy Diogel. |

3. **YMGYRCH GORFODI PARCIO 2021**

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch Ymgyrch Gorfodi Parcio 2021, a oedd yn manylu ar y lefelau staffio presennol yn is-adran gwasanaethau parcio'r awdurdod.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y cyngor yn cyfyngu ar nifer yr hawlenni sy’n cael eu rhoi mewn perthynas â'r lleoedd parcio sydd ar gael; ac os cafodd hyn unrhyw effaith ar y strydoedd cyfagos, yn enwedig ardaloedd tai teras. O ran y polisi presennol, dywedwyd y gallai dau breswylydd fesul aelwyd dderbyn hawlenni parcio; lleihawyd hyn i un hawlen os oedd ardaloedd parcio oddi ar y ffordd neu os oedd garej yn yr eiddo. Nid oedd y cynllun hawlenni presennol yn gwarantu lle yng nghilfachau preswylwyr, fodd bynnag roedd yn cynnig cyfle gwell i breswylwyr barcio'n nes at eu heiddo. Nodwyd, pan fydd Swyddogion yn asesu stryd, fod yn rhaid iddynt gadw tua 30% o'r stryd yn anghyfyngedig, sy'n caniatáu i ymwelwyr a'r rheini nad oeddent yn gallu parcio mewn cilfach, allu parcio mewn ardal anghyfyngedig; lle'r oedd strydoedd cyfyngedig iawn, mae'n anochel weithiau y bydd yn rhaid i breswylwyr barcio ar strydoedd cyfagos. Soniodd swyddogion, gyda chynnydd yn nifer y cerbydau preifat, fod mwy o geir na lleoedd parcio ar y strydoedd mewn rhai ardaloedd, yn enwedig lle'r oedd tai teras. Ychwanegwyd, er mwyn cyflwyno hawlen ar gyfer parcio ar y stryd, mae'n rhaid i'r car fod wedi'i gofrestru i eiddo ar y stryd.

Soniwyd bod rhai ardaloedd a lleoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol a allai fod yn addas ar gyfer cilfachau parcio ychwanegol, er enghraifft, ymylon; Gofynnwyd i swyddogion a allent ymchwilio i'r math hwn o ateb i’r broblem ac a oedd unrhyw grantiau y gellid eu defnyddio i gwblhau'r gwaith hwn. Dywedodd Swyddogion nad oedd grantiau penodol ar gael i greu cilfachau parcio preswyl oddi ar y ffordd; yn y gorffennol, bu cynlluniau lle'r oedd y cyngor yn gallu creu cilfachau parcio oddi ar y ffordd, fodd bynnag ni fu unrhyw gynlluniau tebyg ers tro oherwydd y pwysau ar y gyllideb cynnal a chadw priffyrdd. Nodwyd bod y math hwn o waith yn bosib pe deuai arian heb ei gynllunio ar gael; roedd y tîm yn agored i awgrymiadau a byddent bob amser yn ceisio creu lleoedd parcio ychwanegol, lle bo hynny'n bosib, i breswylwyr. Esboniwyd y byddai angen hysbysu Swyddogion o broblemau penodol yn wardiau'r Aelodau er mwyn iddynt nodi unrhyw gyfleoedd am gyllid i ariannu prosiectau gwaith penodol.

Cododd yr Aelodau bwyntiau’n ymwneud â phatrwm gwaith y staff a'r angen am ragor o adnoddau yn y gwasanaeth; a dywedon nhw er

bod rhai elfennau gorfodi wedi bod yn effeithiol, fel y fan teledu cylch cyfyng, byddai angen rhagor ohonynt er mwyn gwneud y gwaith gorfodi'n fwy effeithiol. Cadarnhaodd Swyddogion fod y fan teledu cylch cyfyng wedi bod yn effeithiol iawn ers iddi gael ei chyflwyno; fodd bynnag, o dan y ddeddfwriaeth, gallai'r fan teledu cylch cyfyng orfodi rhai gorchmynion traffig yn unig, fel y rheini'n ymwneud â llinellau melyn dwbl, safleoedd bysus a chilfachau bysus, marciau igam ogam a gorchmynion ysgol. Nodwyd y gwnaed newidiadau cymhleth pan gyflwynwyd y cerbyd hwn oherwydd bod yn rhaid digideiddio pob gorchymyn traffig ar draws y fwrdeistref sirol; roedd hyn oherwydd bod y fan teledu cylch cyfyng yn codi lle mae gorchymyn yn dechrau ac yn gorffen o System Leoli Fyd-eang. Ychwanegwyd bod Swyddogion yn cydnabod bod yn rhaid rheoleiddio gorchmynion traffig o gwmpas ysgolion yn llwyr ar draws y fwrdeistref sirol; cymerodd hyn gryn dipyn o amser i'w gwblhau. Cadarnhaodd Swyddogion eu bod ar hyn o bryd yn gweithio trwy gostau i brynu cerbyd arall o bosib oherwydd effeithiolrwydd y fan bresennol a nifer y ceisiadau am gerbyd ychwanegol gan yr Aelodau Etholedig; byddai hyn yn cynyddu camau gorfodi yn y fwrdeistref sirol, fodd bynnag gallai'r faniau fod mewn lleoliadau penodol ar adegau penodol yn unig. Cadarnhawyd pan fyddai angen newid y fan bresennol, y byddai cerbyd trydan ag allyriadau isel yn cael ei brynu a bydd yr un peth yn berthnasol wrth brynu cerbydau ychwanegol.

O ran adnoddau, amlygwyd bod y lefelau staffio wedi aros yr un peth fwy neu lai ers y rhoddwyd pwerau gorfodi i awdurdodau lleol; ers hynny, dros yr 20 mlynedd diwethaf, cyflwynwyd tua 600 o orchmynion traffig gorfodadwy ychwanegol ar draws y fwrdeistref sirol, roedd nifer y meysydd parcio awyr agored a meysydd parcio oddi ar y ffordd wedi cynyddu, yn ogystal â rhai o feysydd parcio'r parciau gwledig y mae'r cyngor yn eu gorfodi. Yn ogystal, soniwyd y bu cynnydd mewn gweithgarwch ar lan môr Aberafan yn ystod misoedd yr haf a llawer o gyrchfannau twristaidd eraill yn y fwrdeistref sirol; roedd hyn hefyd yn cael effaith ar y gwasanaeth oherwydd bod yr ardaloedd hynny'n dod yn fwy poblogaidd, felly roedd yn rhaid i Swyddogion ymateb i'r ffactorau hyn. Dywedwyd bod pwysau difrifol ar y gwasanaeth parcio oherwydd y materion hyn a godwyd.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod datblygiadau newydd wedi cael effaith sylweddol ar ardaloedd trefol, ac wedi effeithio ar rai strydoedd preswyl; er enghraifft, cafwyd llawer o anawsterau gyda cheir oedd wedi'u parcio heb ganiatâd ar gampws y brifysgol ar Fabian Way, ac

oherwydd hyn roedd Swyddogion wedi defnyddio camau gorfodi yn yr ardal pan oedd y brifysgol yn weithredol.

Anhawster arall a nodwyd oedd y safleoedd tacsis; fodd bynnag, roedd cydweithwyr yn y Tîm Trwyddedu wedi cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn ddiweddar i alluogi ymagwedd fwy cydlynol at orfodi'r safleoedd tacsis.

O ran lefelau staffio, nodwyd bod gan y gwasanaeth gyfanswm o 10 Swyddog, gyda dau o'r rheini'n Uwch-swyddogion; roedd un swydd yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd gan fod gweithiwr wedi gadael y cyngor yn ddiweddar. Cadarnhawyd, gyda'r recriwt newydd, y byddai'r lefelau staffio'n gyfanswm o naw gweithiwr, gan fod un Uwch-swyddog wedi'i ddefnyddio i gynorthwyo gyda'r Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD). Soniwyd bod y staff yn gweithio shifftiau a rennir, a thynnodd Swyddogion sylw at yr amseroedd a'r dyddiau amrywiol a oedd yn yr amserlen; Gofynnwyd i Swyddogion hefyd weithio goramser i gefnogi gorfodi gyda'r nos.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r peiriannau tocynnau parcio, sydd bellach yn derbyn taliadau digyffwrdd; Holodd yr Aelodau a oeddent yn hawdd i'w defnyddio. Esboniwyd bod y nodwedd ddigyffwrdd yn gymharol hawdd ei defnyddio; roedd yn gofyn i'r defnyddiwr nodi rhif cofrestru'i gar a thapio'i gerdyn digyffwrdd yn erbyn y peiriant cyn y byddai tocyn yn cael ei ddarparu. Dywedodd swyddogion y bu cynllun graddol i adnewyddu'r holl beiriannau tocynnau parcio talu ac arddangos ar draws y fwrdeistref sirol; roedd rhai bellach yn beiriannau wedi'u pweru gan ynni solar, ac roedd eraill yn wifredig. Ychwanegwyd bod pob un o'r peiriannau bellach yn ddwyieithog, a bod a opsiynau amrywiol i dalu am barcio; roedd hyn yn cynnwys talu drwy sglodyn a PIN, trwy arian parod a thaliad digyffwrdd. Hysbyswyd yr aelodau fod y gwasanaeth hefyd yn y broses o gyflwyno opsiwn talu dros y ffôn trwy'r cyfleuster MiPermit, i bob maes parcio ledled y fwrdeistref sirol; roedd hyn eisoes ar waith ym maes parcio ar lan môr Aberafan, ac yn caniatáu i'r cyhoedd dalu am eu tocyn ar eu ffôn.

Amlygodd swyddogion fod casglu arian parod o'r peiriannau tocynnau parcio wedi cael ei leihau'n sylweddol gan fod mwy o bobl yn dewis talu trwy gerdyn neu trwy ddull di-arian; roedd y gwasanaeth wedi gallu adolygu'r system casglu arian parod yn ei chyfanrwydd oherwydd hyn. Nodwyd mai ychydig iawn o arian parod oedd bellach yn y peiriannau, a gosodwyd arwyddion i hysbysu'r cyhoedd o hyn; cafwyd nifer o ddigwyddiadau lle'r oedd unigolion wedi ceisio torri i

mewn i'r peiriannau, felly roedd yn bwysig sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol bod y system bellach yn ddi-arian yn bennaf.

Gofynnwyd, lle'r oedd problemau mawr gyda pharcio mewn rhai strydoedd, a fyddai modd cael gwared â rhai o'r ymylon glaswelltog er mwyn caniatáu lleoedd parcio ychwanegol. Cadarnhaodd Swyddogion eu bod yn fodlon nodi cyfleoedd lle y gellid cyflawni hyn; roedd gwahanol gamau i wneud hyn, ac roedd un ohonynt yn cynnwys cysylltu â'r Tîm Diogelwch Ffyrdd i gael eu barn o safbwynt diogelwch ffyrdd. Soniwyd bod Swyddogion mewn rhai lleoliadau yn y fwrdeistref sirol wedi cynghori yn erbyn creu lleoedd parcio ar ymylon glaswelltog yn enwedig o gwmpas ysgolion; yn yr achosion hyn ystyriodd swyddogion roi mesurau lliniaru eraill ar waith. Cadarnhawyd y byddai angen nodi a oedd cyllid cyfalaf ar gael ym mhob achos er mwyn i'r gwaith gael ei wneud.

Rhoddodd Swyddogion wybodaeth am y ddeddfwriaeth newydd y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi yn ystod tymor Llywodraeth bresennol Cymru; un o brif elfennau hyn oedd parcio ar balmentydd. Esboniwyd bod pwerau gorfodi parcio ar balmant yn mynd i gael eu cymryd oddi wrth yr heddlu a'u rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru; bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar y timau gorfodi.

Gwnaed awgrym i gynnwys preswylwyr mewn trafodaethau ynghylch dod i hyd i atebion i broblemau parcio mewn ardaloedd preswyl.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Adolygiad Polisi Biniau Graean Bob Tair Blynedd

Rhoddwyd adolygiad o bolisi biniau graean y cyngor i'r Aelodau.

Esboniodd swyddogion fod y polisi biniau graean wedi cael ei lunio yn 2012, a'i fod wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor ar sail adolygiad tair blynedd ers hynny; ni fu unrhyw newidiadau i'r polisi ers iddo gael ei lunio yn 2012. Tynnwyd sylw at y ffaith oherwydd penderfyniadau anodd blaenorol ynghylch y gyllideb, gan gynnwys toriadau i'r Gwasanaethau Cymdogaethau, nad oedd llawer o arian ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gweithgarwch ychwanegol yn y gwasanaeth.

Hysbyswyd yr Aelodau fod biniau graean wedi'u prynu mewn sypiau a'u bod yn cael eu hamnewid yn ôl yr angen, ynghyd ag ail-lenwadau y gellid eu prynu yn unol â'r polisi; y llynedd, adroddwyd bod tri bin graean wedi'u difrodi ac roedd naw bin graean yn absennol o'u lleoliad arferol.

Nodwyd bod cynnal biniau graean yn creu swm sylweddol o waith a galw am wasanaeth i'r Tîm Cymdogaethau; yn ogystal â'r gwaith o ail-lenwi rheolaidd a oedd fel arfer yn cael ei wneud, cafwyd 100 cais am ail-lenwadau ychwanegol y llynedd. Tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith bod angen cydbwyso lefel gyfyngedig o adnoddau ar draws ystod o weithgareddau y mae'r Tîm Cymdogaethau yn eu cyflawni; oherwydd y ffaith nad oedd sefyllfa’r gyllideb wedi gwella, yr argymhelliad oedd cynnal y polisi am gyfnod o dair blynedd ychwanegol. Ychwanegodd Swyddogion, pe bai'r Aelodau am adolygu manylion y polisi, y byddai'n bwysig ystyried y ceisiadau am finiau graean gan yr holl Aelodau Etholedig yn eu cyfanrwydd a sicrhau bod pa bynnag newidiadau a wnaed yn cyd-fynd â'r gyllideb fel y gellid eu hariannu a'u cynnal.

Mynegodd yr aelodau eu pryderon o ran y polisi biniau graean presennol gan dynnu sylw at yr anawsterau a brofwyd yn ystod misoedd y gaeaf; yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oedd llawer o finiau graean neu unrhyw rai o gwbl. Roedd yr aelodau wedi gobeithio y byddai rhagor o finiau graean ar gael, yn enwedig mewn ardaloedd lle roedd rhiwiau; gofynnwyd a oedd ymarfer mapio wedi'i gwblhau i nodi ble roedd y gwahanol finiau graean wedi'u lleoli ac a ellid edrych i mewn i'w cyfartalrwydd.

Cadarnhaodd Swyddogion fod gan system gwybodaeth ddaearyddol y cyngor haen a oedd yn cynnwys lleoliad yr holl finiau graean ar draws y fwrdeistref sirol. Soniwyd bod gan y polisi biniau graean feini prawf cymhwysedd a oedd yn cynnwys y nodweddion a'r amodau angenrheidiol o gael bin graean ar gyfer ardaloedd gwahanol; roedd mwy o rhywiau mewn rhai ardaloedd yn y fwrdeistref sirol nag eraill, felly byddent yn flaenoriaeth wrth gael gafael ar fin. Hysbyswyd yr Aelodau na fydd y dosbarthiad yn gyfartal oherwydd hyn. Ychwanegwyd, dan y polisi presennol, bod hawl gan Aelodau i symud bin graean i leoliad arall yn eu ward os oedd angen; fodd bynnag, os nad oedd gan y ward fin graean i'w symud, yna ni fyddai hyn yn gallu digwydd.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r canllawiau presennol a gynhwyswyd yn y polisi. Gwnaeth yr Aelodau awgrymiadau amrywiol yn ymwneud â'r

hyn y gellid ei ychwanegu at y polisi a'i adolygu er mwyn gwneud gwelliannau; er enghraifft, ystyried oedran a diamddiffynnedd preswylwyr, nodi a oedd ardaloedd penodol yn dueddol o gael rhew yn ystod tymor y gaeaf a rhoi disgresiwn i Swyddogion pe bai achos cadarn dros ddarparu bin graean i ardal.

Yn dilyn y trafodaethau a'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau, cynigiwyd ac eiliwyd diwygiad ffurfiol i'r argymhelliad a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:

'Bod y Polisi Biniau Graean presennol yn parhau nes y bydd Pwyllgor Craffu’r Strydlun a Pheirianneg yn adolygu’r polisi ac y rhoddir adroddiad i’w ystyried mewn cyfarfod Bwrdd Strydlun a Pheirianneg y Cabinet yn y dyfodol'.

Penderfynwyd bod y Pwyllgor o blaid y gwelliant i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2021/2022 - Perfformiad Chwarter 1 (1 Ebrill 2021 - 30 Mehefin 2021)</u>

Adroddodd Swyddogion am ddata rheoli perfformiad chwarter 1 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 30 Mehefin 2021.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y dangosydd perfformiad yn ymwneud â chanran y gwastraff, boed wedi'i ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio; a thynnodd sylw at y ffaith bod y ffigurau targed yn cynyddu. Cadarnhaodd Swyddogion mai'r targed cyfredol ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn oedd 64%, a fyddai'n cynyddu i 70% ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2024/25.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 5. **<u>BLAENRAGLEN WAITH</u>**

Gofynnodd yr Aelodau i wybodaeth yn ymwneud â gorfodi gwastraff ar yr ochr yn y Gwasanaeth Gwastraff gael ei hychwanegu at y Blaenraglen Waith. Cytunwyd y byddai'r elfen hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ar orfodi sbwriel a thipio anghyfreithlon y disgwylir iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar 28 Ionawr 2022.

Nodwyd y Blaenraglen Waith ar gyfer Pwyllgor Craffu’r Strydlun a Pheirianneg.

## 6. **<u>MYNEDIAD I GYFARFODYDD</u>**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

7. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Dewisodd y Pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Cytundeb Adran 38 Deddf Priffyrdd 1980, Taliad Swm Gohiriedig - Cae Morfa, Camau Tri a Phedwar Sgiwen

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad mewn perthynas â sefyllfa Adran 38 Datblygiad Cae Morfa ynghylch lefel y symiau gohiriedig ar gyfer cynnal a chadw'r datblygiad yn y tymor hir.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol i'r argymhelliad i fynd at Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**

# SCRUTINY

# FORWARD WORK PROGRAMME

# March 2021 – 2022

## Streetscene and Engineering Scrutiny Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 26th March | Please see Cabinet Board FWP for items | |
| | | |
| 21st May | Please see Cabinet Board FWP for items | |
| | | |
| 2nd July | Please see Cabinet Board FWP for items | |
| | | |
| 24th September | Please see Cabinet Board FWP for items | |
| | | |
| 5th November | Parking Enforcement Operation 2021 | Steve Cook |
| | | |
| 17th December | Please see Cabinet Board FWP for items | |
| | | |
| **2022** | | |
| 28th January | Report on Litter / Fly Tipping / Side Waste Enforcement | James Davies |
| | Management and Maintenance of Playgrounds | James Davies |
| 11th March | Joint Report on Subway and Footway Maintenance | Hasan Hasan |
| | | |
| 29th April | Public Transport / Passenger and Community Transport Update | Peter Jackson |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | Report on Land  Drainage and flood Defence | Steve Owen |

To be programmed in:

- Quality Assurance Report